



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)



# Rhan 9

Canllawiau Statudol ar Drefniadau Partneriaeth.

*Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 169 o'r Ddeddf.*

## Pennod / Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
2. Cefndir Deddfwriaethol	4
3. Trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth rhanbarthol	5
4. Aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol	9
5. Adroddiadau	10
6. Rhannu gwybodaeth	11
7. Dirprwyo swyddogaethau	12
8. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd	13
9. Cronfeydd cyfun a defnyddio partneriaethau ffurfiol	17
10. Llywodraethu – Cytundebau Ysgrifenedig	20
<b>Atodiad 1 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015</b>	<b>21</b>

**OGL**

ISBN digidol 978-1-4734-5505-4  
© Hawlfraint y Goron 2015  
WG25383

## 1. Cyflwyniad

1. Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â’u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion y mae arnynt anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae’n nodi bod gan bartneriaid perthnasol ddyletswydd i gydweithredu â’r awdurdodau lleol, a darparu gwybodaeth ar eu cyfer, yng nghyswllt eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Rhan 9 o’r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfun) a byrddau partneriaeth. Bwriedir i Ran 9 gael ei darllen yng nghyd-destun y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.
2. Diben Rhan 9 yw gwella canlyniadau a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth gwasanaethau. Felly, mae modd disgrifio amcanion allweddol cydweithrediad, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
  - Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o gyfle i fynegi barn a rhagor o reolaeth.
  - Gwella canlyniadau ac iechyd a llesiant.
  - Darparu gofal a chymorth cydgysylltiedig sy’n canolbwyntio ar bobl.
  - Defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol.
3. Mae’n bosibl y bydd unigolion, eu teuluoedd a’u gofalwyr angen gofal neu gymorth gan fwy nag un gweithiwr proffesiynol neu sefydliad. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cydgysylltu a darparu’r gofal a’r cymorth yn effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion penodol. O safbwynt pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, dylai hyn olygu:
4. “Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gen i gyda phobl sy’n cydweithio i’m deall i, fy rheulu, a’m gofalwr/gofalwyr, gan sicrhau bod gen i reolaeth drwy ddwyn ynghyd y gwasanaethau i sicrhau’r canlyniadau sy’n bwysig i mi.”
5. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 169 o’r Ddeddf. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried y canllawiau hyn mewn perthynas â threfniadau partneriaeth sy’n ofynnol o dan adran 166 o’r Ddeddf. Mae’r canllawiau hefyd yn berthnasol i fyrddau partneriaeth y mae’n ofynnol eu sefydlu mewn perthynas â’r trefniadau partneriaeth hynny, ac i unrhyw dimau y mae’n ofynnol eu sefydlu er mwyn gweithredu’r trefniadau partneriaeth. Mae’r canllawiau statudol hefyd yn cwmpasu adran 167 (adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth) ac adran 168 (byrddau partneriaeth).

## 2. Cefndir Deddfwriaethol

6. Mae Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (“Deddf 2006”) yn galluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu partneriaethau ffurfiol a dirprwyo swyddogaethau o un corff i'r llall. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth hon yn wreiddiol gyda Deddf Iechyd 1999, ac fe gafodd y mesurau eu cydgrynhoi yn Neddf 2006. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn galluogi awdurdod lleol i ddirprwyo rhai swyddogaethau penodedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddirprwyo rhai swyddogaethau penodedig i'r awdurdod lleol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu ar gyfer datblygu gwasanaethau integredig, comisiynu integredig a threfniadau ar gyfer cronfeydd cyfun.
7. Mae Deddf 2006 hefyd yn cydgrynhoi mesurau o ddeddfau eraill. Cafodd trefniadau grant blaenorol a wnaed o dan 28A a 28BB o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol 1977 eu cydgrynhoi yn Neddf 2006 o dan adran 194 ac adran 34.
8. Mae Deddf Plant 2004 (“Deddf 2004”) yn darparu ar gyfer datblygu cronfeydd cyfun, ond mae'r rhain yn wahanol iawn i'r trefniadau cronfa gyfun yn Neddf 2006, oherwydd er eu bod yn galluogi amrywiaeth ehangach o ‘bartneriaid perthnasol’ i gyfrannu at y gronfa gyfun, nid yw'r ddeddf hon yn caniatáu dirprwyo swyddogaethau rhwng partneriaid. Nid yw Deddf 2004 yn gwneud darpariaeth i un partner gyflawni swyddogaethau partner arall, neu i un partner ddarparu gwasanaethau partner arall yn hytrach na'i wasanaethau ei hun. Yn hytrach, mae'n cynnig cyfle i gytuno ar amcanion ar y cyd a chyfrannu at y gost o gyflawni'r amcanion hyn drwy ba bartner bynnag sy'n gyfrifol yn gyffredinol am ddarparu gwasanaethau. Mae adran 162 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn ymestyn y ddarpariaeth hon ar gyfer ariannu gwasanaethau i oedolion a gofalwyr, ac yn debyg i Ddeddf 2004, mae'n gallu cynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth ehangach o bartneriaid, ond nid yw'n darparu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau rhwng partneriaid.
9. Mae'r rheoliadau perthnasol ar gyfer partneriaethau ffurfiol yn ymwneud â dirprwyo swyddogaethau yn cynnwys Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2006.
10. Cafodd nifer o nodiadau cyngor eu darparu i helpu i ddatblygu partneriaethau ffurfiol a chronfeydd cyfun o dan Ddeddf 2006 a Deddf 2004. Mae cynnwys y nodiadau cyngor yn berthnasol o hyd, ond byddant yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Ddeddf a chynorthwyo i'w gweithredu, fel sy'n ofynnol.

### 3. Trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth rhanbarthol

11. Mae'n ofynnol i'r cyrff partneriaeth (awdurdodau lleol a BILL) wneud trefniadau partneriaeth, yn unol â Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.
12. Y swyddogaethau sydd angen eu cyflawni yn unol â'r trefniadau partneriaeth yw'r swyddogaethau sy'n cael eu disgrifio yn Atodlen 1. Nid yw'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn cael eu defnyddio i ymestyn swyddogaethau awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, y mae modd eu hymestyn, y tu hwnt i'r swyddogaethau a ganiateir gan y rheoliadau o dan Ddeddf 2000.
13. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol a sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion y boblogaeth berthnasol.
14. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth ym mhob ardal BILL wneud trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
15. Mae angen sefydlu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol canlynol mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth sy'n cael eu gwneud gan y cyrff partneriaeth a nodir yn y rheoliadau:
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion.
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys.

16. Amcanion y Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i:
  - Ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gynhaliwyd yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf.
  - Gweithredu'r cynlluniau ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol a gwmpesir gan y bwrdd y mae'n ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol eu llunio a'u cyhoeddi o dan adran 14A o'r Ddeddf.
  - Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf.
  - Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.
17. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella canlyniadau ar gyfer pobl yn eu rhanbarth. Bydd angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl i sicrhau bod hyn yn digwydd.
18. Mae'r trefniadau partneriaeth hyn yr un fath â'r trefniadau a fydd yn cael eu defnyddio at ddibenion cynnal yr asesiad o'r boblogaeth o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth leol ar gyfer gofal a chymorth, cymorth ar gyfer gofalwyr a gwasanaethau ataliol. Mae hefyd yn nodi bod angen asesu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn. Felly, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried yr asesiad hwn o'r boblogaeth a phenderfynu a fydd darparu gwasanaethau, gofal a chymorth mewn ffordd integredig o fudd i bobl yn eu rhanbarth. Dylai'r broses hon gael ei llywio gan safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau.
19. Hefyd, bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau ar gyfer y canlynol:
  - Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.
  - Pobl ag anableddau dysgu.
  - Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
  - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
  - Plant sydd anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.
20. Dylid datblygu gwasanaethau, gofal a chymorth mewn ffordd integredig, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar. Ym maes gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, y nod yw darparu cymorth i deuluoedd er mwyn rhwystro plant rhag mynd yn blant sy'n derbyn gofal neu'n cael eu cadw. Yn y lle cyntaf, mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydgyrnhoi datblygiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a datblygu dull integredig o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch a phlant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys trefniadau pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

21. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol drefniadau partneriaeth ar waith eisoes ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, mae byrddau partneriaeth cenedlaethol yn bodoli ar gyfer y gwasanaethau hyn. O ganlyniad, dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen sydd eu hangen o bosibl i integreiddio gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer unigolion a/neu ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol. Dylai hyn gynnwys ystyried pa drefniadau a fyddai'n fwy effeithiol ar lefel genedlaethol, yn hytrach na lefel ranbarthol neu leol.
22. Dros amser, bydd disgwyl i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymestyn darpariaeth gwasanaethau integredig y tu hwnt i'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn y canllawiau hyn, yn ogystal â sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth.
23. Bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu ar y strwythurau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaethau integredig hyn yn cael eu darparu. Gallai hyn gynnwys sefydlu grwpiau rheoli neu grwpiau gweithredol, yn ogystal â thimau integredig ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Bydd angen datblygu cytundebau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw drefniadau partneriaeth sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaethau.
24. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfraniad allweddol i'w wneud at ddwyn ynghyd partneriaid i benderfynu a fydd darparu gwasanaethau, gofal a chymorth mewn ffordd integredig o fudd i bobl yn eu rhanbarth. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod pob partner yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella canlyniadau i bobl. Bydd angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon i gyflawni hyn. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol at oruchwylio a llywodraethu trefniadau partneriaeth. Yn sgil y defnydd cynyddol o gyllidebau ac adnoddau cyfun, mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol ar waith. Dylai cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nodi'n glir a yw aelodau'r bwrdd wedi dirprwyo penderfyniadau o'u cyrff neu eu sefydliadau perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
25. Bydd angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu a chydgysylltu trefniadau partneriaeth ffurfiol neu anffurfiol. Bydd partneriaethau adran 33 (Deddf GIG (Cymru) 2006) eisoes ar waith mewn rhai ardaloedd, a gall yr ardaloedd hyn benderfynu datblygu rhagor o bartneriaethau ffurfiol y tu allan i gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae nifer o drefniadau partneriaeth anffurfiol (trefniadau anffurfiol y tu allan i gytundeb adran 33 sy'n cynnwys swyddogaethau dirprwyedig) eisoes ar waith.
26. Mae'r Cod Ymarfer yn ymwneud ag Eiriolaeth (Rhan 10 o'r Ddeddf) yn nodi'r gofynion ar gyfer mynediad i wasanaethau a chymorth eiriolaeth. Wrth ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn gallu ymateb i ofynion eiriolaeth pob unigolyn. Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth yn darparu rhagor o gyngor ar y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar unigolion a'u hanghenion ar gyfer cymorth penodol.
27. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnig mewn ffordd hygyrch sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw yn eu rhanbarth. Dylai awdurdodau lleol arwain y broses o gytuno â phartneriaid rhanbarthol ynglŷn â pha agweddau ar wasanaethau y dylid eu datblygu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

28. Os yw comisiynu gwasanaethau o fudd i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, dylent weithio gyda'i gilydd i ystyried a fydd modelau busnes dielw amgen yn diwallu anghenion llesiant eu poblogaeth leol. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys rhagor o gyngor ar hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.



## 4. Aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

29. Rhaid i aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys y canlynol:
- a) leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - b) leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - c) y person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf mewn cysylltiad â phob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;
  - d) cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - e) dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - f) leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - g) un person i gynrychioli pobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
  - h) un person i gynrychioli gofaluwr yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.
30. Gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfethol personau eraill i fod yn aelodau o'r bwrdd fel sy'n briodol. Mae'r rheoliadau yn cyfeirio at isafswm aelodau'r bwrdd, ond bydd nifer y cynrychiolwyr ac amrywiaeth y bobl berthnasol yn cael eu penderfynu yn lleol. Gellir ystyried cynnwys aelodau eraill fel arweinwyr tai, y gwasanaeth tân, yr heddlu ac ati.
31. Dylai trefniadau priodol fod ar waith ar lefel strategol i ymgysylltu â byrddau a sefydliadau eraill yn ôl y gofyn. Gall y Bwrdd wahodd sefydliadau neu unigolion i fynychu cyfarfodydd Bwrdd neu is-grwpiau fel sy'n briodol. Hefyd, bydd angen meithrin ymgysylltu drwy rwydweithiau neu fforymau sydd eisoes yn bodoli, neu drwy ddatblygu rhwydweithiau neu fforymau newydd. Mae'n rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ymgysylltu â gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chyfrannu at y gwaith. Bydd un aelod o'r bwrdd yn cynrychioli pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth. Cydnabyddir na ellir disgwyl i'r unigolyn hwn gynrychioli pawb sydd angen gofal a chymorth. Felly, bydd angen iddo weithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r panel dinasyddion (neu grwpiau perthnasol eraill) i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig. Yn yr un modd, ni ellir disgwyl i gynrychiolwyr y trydydd sector gynrychioli pob sefydliad yn eu sector, ond bydd angen iddynt sicrhau bod modd ymgysylltu'n effeithiol â'r sector a'u bod yn gallu dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau integredig, fel sy'n briodol. Dylid sicrhau bod un cynrychiolydd ar gyfer sefydliadau trydydd sector lleol a chynrychiolydd arall ar gyfer sefydliadau trydydd sector cenedlaethol.

## 5. Adroddiadau

32. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi adroddiad sy'n nodi i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi'u cyflawni. Mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid paratoi a chyflwyno'r adroddiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017, a pharatoi a chyflwyno adroddiad bob blwyddyn wedyn.
33. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad, a dylai gynnwys y canlynol:
- Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
  - Gwybodaeth am sut mae'r bwrdd wedi cyflawni ei amcanion, gan gynnwys gwybodaeth reoli ategol berthnasol (e.e. adroddiad ariannol ac adroddiadau cynnydd eraill).
  - Manylion y trefniadau partneriaeth sydd ar waith i ymateb i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth a'r meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys unrhyw grwpiau neu strwythurau ategol.
  - Sut mae'r bwrdd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau, neu grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau (e.e. paneli dinasyddion).
  - Gwybodaeth am sut mae'r trefniadau partneriaeth wedi cyfrannu at wella canlyniadau a darpariaeth gwasanaethau er mwyn ymateb i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth a'r meysydd blaenoriaeth (gan gynnwys gwybodaeth am sut mae adnoddau wedi'u defnyddio'n effeithiol).
  - Gwybodaeth am y ddarpariaeth statudol a ddefnyddiwyd - e.e. cytundeb Adran 33 (Deddf GIG (Cymru) 2006), neu drefniant anffurfiol sy'n seiliedig ar gytundeb ysgrifenedig.
34. Dylid cyhoeddi fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r adroddiad, a bydd angen ei gyfieithu i ieithoedd eraill yn dilyn cais rhesymol. Yn yr un modd, bydd angen creu fersiwn braille, fersiwn hawdd ei ddarllen ac ati yn dilyn cais rhesymol.

## 6. Rhannu gwybodaeth

---

35. Mae'n rhaid i gorff partneriaeth rannu gwybodaeth ag unrhyw un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r trefniant partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol os yw'n anghydnaws ag unrhyw un o ddyletswyddau eraill y corff, gan gynnwys ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998.
36. Rhaid cydymffurfio ag egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) wrth rannu unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn. Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol ac awdurdod lleol wedi llofnodi'r Cytundeb WASPI. Dyma ddolen i WASPI:
37. <http://www.waspi.org/>
38. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, gofal a chymorth. Dylai technoleg a systemau cyffredin fod yn sylfaen i hyn, a disgwylir i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu arweiniad strategol yn y maes hwn.

## 7. Dirprwyo swyddogaethau

---

39. Gall awdurdod lleol gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau penodedig ar ran unrhyw un o'r cyrff partneriaeth eraill sy'n cymryd rhan yn yr un trefniant partneriaeth. Gall Bwrdd Iechyd Lleol gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau awdurdod lleol penodedig sy'n cael eu disgrifio yn Nhabl 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ar ran unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn yr un trefniant partneriaeth.

## 8. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

40. Mae'r adran hon o'r canllawiau yn ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth. O'r dechrau, mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig wedi canolbwyntio ar weithio gyda rhieni a'r teulu estynedig yn gynnar yn y broses cyn bod plant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd fel bod rhieni yn gallu gwella eu sgiliau rhianta.
41. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu darparu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi bod angen sefydlu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
42. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd er mwyn galluogi rhieni i gyflawni'r newidiadau ymddygiad gofynnol a fydd yn gwella eu galluedd a'u gallu fel rhieni. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn seiliedig ar yr egwyddor fod y teulu estynedig yn ymgysylltu â'r broses.
43. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn canolbwyntio ar blant mewn angen, gan gynnwys plant sydd angen eu hamddiffyn. Maent yn pontio gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ledled yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac mae'r ddau gorff yn gyfrifol am wneud darpariaeth ddigonol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniadau cydgysylltiedig, i gynorthwyo plant ac oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio atynt.
44. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar egwyddorion sy'n ei gwneud yn ofynnol i Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd wneud y canlynol:
  - Cryfhau diogelwch a lles plant drwy gamau gweithredu adferol er mwyn cefnogi rhieni yn well.
  - Gwella ansawdd gwasanaethau i rieni a phlant sy'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol.
  - Canolbwyntio ar y teulu, gan sicrhau bod llais y teulu yn cael ei glywed a bod ymyriadau yn gydnaws â chanlyniadau dymunol y teulu.
  - Hwyluso'r broses o newid gwasanaethau.
  - Bod yn adnodd ar gyfer gwasanaethau cyfredol.
  - Datblygu cysylltiadau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth.
  - Darparu ymyriadau holistaidd a dwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
  - Darparu adnodd hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn ymwneud ag ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ymgysylltu â theuluoedd cymhleth.
45. Dylai gwerthoedd y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd fod yn seiliedig ar ymgysylltu a chydweithio, gan ddatblygu cryfderau'r teulu ac unigolion. Mae'n rhaid gwrandao ar safbwyntiau plant a phobl ifanc ar y canlyniadau y maent am eu sicrhau.

## Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

46. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth ar gyfer pob trefniant partneriaeth sefydlu tîm at ddibenion cyflawni swyddogaethau cymorth i deuluoedd. Cyfeirir at dîm sy'n cael ei sefydlu o dan y rheoliad hwn fel tîm integredig cymorth i deuluoedd. Mae swyddogaethau'r tîm integredig cymorth i deuluoedd yn cael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
47. Mae'n rhaid i dîm integredig cymorth i deuluoedd gynnwys staff sydd â'r sgiliau a'r profiad addas, gan gynnwys o leiaf un gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol, un gweithiwr gwaith cymdeithasol proffesiynol cymwysedig ac un gweithiwr iechyd cofrestredig, gan roi sylw i'r categorïau o achosion/teuluoedd y gellir eu hatgyfeirio at y tîm, a'r angen am gymorth gweinyddol ar staff proffesiynol (gweler rheoliad 16(4)(a) a (b)).
48. Mae'r holl gyrff partneriaeth yn ardal pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol ar y cyd am sefydlu'r tîm integredig cymorth i deuluoedd a'i gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, mae pob corff partneriaeth yn gyfrifol am ei swyddogaethau statudol perthnasol.
49. Mae'n rhaid sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd ar gyfer yr ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n rhaid i'r timau fod yn amlddisgyblaethol ac yn amlasiantaethol.

## Atgyfeirio at Dimau Integredig Cymorth i Deuluoedd – Rheoliad 18 (1)

50. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu gweithdrefnau clir a thryloyw ar gyfer atgyfeirio teulu at dîm integredig cymorth i deuluoedd os yw'n credu neu'n amau'r canlynol yn rhesymol:
  - (a) bod rhiant plentyn yn y teulu hwnnw (neu ddarpar riant) (i) yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, (ii) yn ddiodef trais domestig neu gam-drin domestig, (iii) â hanes o ymddwyn yn dreisgar neu'n gamdriniol, neu (iv) ag anhwylder meddwl; ac
  - (b) o ganlyniad i un neu ragor o'r amgylchiadau hyn, bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn blentyn y mae angen gofal a chymorth arno a naill ai:
    - (i) na fydd y plentyn yn gallu aros gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd,
    - (ii) pan fo'r plentyn yn derbyn gofal, na fydd y plentyn yn gallu dychwelyd i fyw gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd, neu
    - (iii) bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
51. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid Bwrdd Iechyd Lleol adnabod teuluoedd mewn achosion lle mae modd dangos y bydd darparu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd o fudd uniongyrchol i iechyd a lles plentyn. Dylid canolbwyntio ar y canlynol yn y lle cyntaf:

- Plentyn sydd angen ei amddiffyn ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, lle mae gofal neu ddatblygiad y plentyn wedi'i esgeuluso.
  - Mae'r teulu mewn sefyllfa o argyfwng ac mae'r plant yn debygol o dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
  - Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac na fyddant yn gallu dychwelyd adref heb ymyrraeth.
52. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod â pholisi ysgrifenedig sy'n amlinellu sut y byddant yn cynnal adolygiadau o deuluoedd, a systemau ar gyfer cofnodi'r adolygiad a'i ganlyniad. Mae'n rhaid i'r rhain gydymffurfio â gofynion Rhan 3 a 4 o'r Ddeddf yn ymwneud ag asesu a diwallu anghenion. Mae'n rhaid rhoi copi o unrhyw gynlluniau sy'n deillio o'r adolygiadau i weithiwr achos y plentyn a chydgyssylltydd gofal y gwasanaeth i oedolion. Mae'n rhaid rhoi copi i'r teulu hefyd.
53. Bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu ar y strwythurau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau bod Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael ei ddarparu. Gallai hyn gynnwys sefydlu is-fyrddau sydd â chyfrifoldeb penodol ar gyfer Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, yn ogystal â'r gofyniad i sefydlu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
54. Wrth benderfynu ar y strwythur gweithredol/darpariaeth ar gyfer y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu ar y broses atgyfeirio hefyd. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad bod panel yn penderfynu priodoldeb a blaenoriaeth atgyfeirio achosion at y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys nodi aelod arweiniol o'r Bwrdd ar gyfer Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mwy na thebyg).
55. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol:
- Sicrhau bod timau Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu sefydlu.
  - Sicrhau bod yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n cyfrannu at y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cydweithredu â'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.
  - Sicrhau bod gan y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau (bydd hyn yn cynnwys yr adnoddau penodol sydd ar gael i'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd, yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau traws-sector lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys y gofynion bod person annibynnol yn cydgysylltu'r adolygiad o'r Cynllun Teulu).
  - Sicrhau bod aelodau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn derbyn hyfforddiant priodol, a sicrhau bod timau neu unigolion cysylltiedig eraill yn derbyn hyfforddiant er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion da.
  - Sicrhau bod anghydfodau a chwynion yn derbyn sylw ac yn cael eu datrys yn briodol.
  - Sicrhau bod adroddiad da yn cael ei lunio ar y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (fel rhan o'r adroddiad cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol). Bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyo'r adroddiad yn ffurfiol cyn ei fod yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hefyd.

56. Nid oes unrhyw fwriad i bennu nifer aelodau'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd amlasiantaethol ac amlldisgyblaethol. Bydd angen i'r gwariant fod yn briodol i ddarparu ar gyfer digon o swyddi i sicrhau bod y Tîm yn gallu diwallu anghenion teuluoedd yn yr ardal, gan gynnwys cymorth gweinyddol. Mae'n rhaid defnyddio'r gronfa i sicrhau tegwch wrth ddarparu gwasanaethau ledled yr ardal, mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd.



## 9. Cronfeydd cyfun a defnyddio partneriaethau ffurfiol

57. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn nodi bod angen sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas ag:
- Arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal.
  - Arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd.
  - Swyddogaethau a fydd yn cael eu harfer ar y cyd o ganlyniad i asesiad a gynhelir o dan adran 14 o'r Ddeddf neu unrhyw gynllun a lunnir o dan adran 14A.
58. Daw'r dyletswyddau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016, ac eithrio'r ddyletswydd i sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r swyddogaethau llety cartref gofal, sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2018.
59. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld dull gweithredu integredig wrth ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol. Ceir gofyniad penodol ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyrannwyd cyllid i awdurdodau lleol fel rhan o gytundeb lleol i sicrhau bod modd sefydlu gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd a thalu costau iechyd a gofal cymdeithasol y gwasanaeth. Bydd hyn yn sylfaen i bartneriaeth ffurfiol gyda chronfa gyfun.
60. Hefyd, dylai Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol ystyried unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru fel y gronfa gofal canolraddol fel math o gyllideb gyfun. Er na fydd angen cytundeb partneriaeth ffurfiol ar gyfer hyn, mae angen cytundeb ysgrifenedig ar gyfer ymrwymo i unrhyw wariant o dan y gronfa gofal canolraddol, neu ffrydiau ariannu tebyg.
61. Er na fydd y gofyniad ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r swyddogaethau llety cartref gofal yn dod i rym tan fis Ebrill 2018, bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol:
- Gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddiad o'r farchnad gan gynnwys anghenion y rhai sy'n ariannu eu hunain.
  - Cytuno ar ddatganiad safle marchnad a strategaeth gomisiynu integredig. Bydd y rhain yn nodi'r canlyniadau gofynnol ar gyfer cartrefi gofal, gan gynnwys amrywiaeth y gwasanaethau gofynnol. Hefyd, dylid cytuno ar y dulliau comisiynu (er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau angen contract bloc, gwasanaethau gofal canolraddol camu ymlaen, camu yn ôl, gofal seibiant ac ati).
  - Cytuno ar gontract a manyleb gyffredin.
  - Datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr.
  - Datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd.
  - Mabwysiadu defnydd tryloyw o adnoddau. Mae'n rhaid i gyllidebau gyd-fynd â'r gwariant cyffredinol a nodwyd, ynghyd ag ymrwymadau ariannol y ddwy asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. Bydd angen cytundeb ysgrifenedig ar gyfer y trefniadau hyn.
62. Y diben yw sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gael cymaint o ddylanwad â phosibl ar lunio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod capasiti digonol ac amrywiaeth briodol o wasanaethau o ansawdd da ar gael i ymateb i anghenion pobl yn yr ardal. Dylai hyn gwmpasu lleoliadau awdurdodau lleol a lleoliadau a ariennir gan y GIG (gofal nyrsio a ariennir a gofal iechyd parhaus y GIG).

63. Dylai hefyd gwmpasu lleoliadau interim tymor byr i hwyluso trosglwyddo gofal o ysbyty a dewis llety; gwelyau gofal canolraddol (camu ymlaen / camu yn ôl), lleoliadau hirdymor, gofal seibiant a gwasanaethau eraill y mae partneriaid yn dymuno eu comisiynu gan gartrefi gofal. Wrth ddatblygu eu dull comisiynu integredig, bydd angen i'r partneriaid ystyried anghenion pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain.
64. Disgwylir y bydd yr un dull gweithredu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gofal cartref hirdymor a gwasanaethau ail-alluogi.
65. Er nad yw'r rheoliadau yn nodi yn ffurfiol bod angen cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r swyddogaethau llety cartref gofal tan fis Ebrill 2018, gall Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol ddefnyddio pwerau presennol i ddatblygu partneriaethau ffurfiol gyda threfniadau ariannu cyfun. Byddai'n bosibl cyflwyno'r trefniadau hyn cyn mis Ebrill 2018.
66. Bydd gan bartneriaid gyfrifoldeb statudol o hyd ar gyfer eu swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni o dan yr holl drefniadau cronfeydd cyfun. Mae hyn yn golygu y dylai'r cytundeb partneriaeth gynnwys y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a sut i reoli trefniadau'r cyllidebau cyfun. Dylid ystyried yr egwyddorion cyffredinol canlynol:
  - Rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd
  - Tegwch
  - Tryloywder
  - Cysondeb
  - Gwerth am arian
67. Mae'n rhaid rhoi trefniadau monitro cynhwysfawr ar waith i roi sicrwydd perthnasol i bartneriaid bod eu nodau a'u hamcanion cyffredin yn cael eu cyflawni.
68. Gall y gyllideb gyfun gael ei chynnal a'i rheoli gan bartner statudol, neu ei chynnal gan bartner statudol a'i rheoli ar ei ran gan sefydliad arall sydd â chontract i wneud hynny. Bydd y sawl sy'n cynnal y gyllideb gyfun yn darparu systemau gweinyddol ariannol ar ran y partneriaid, ond ni fydd yn ysgwyddo unrhyw ddyledion ychwanegol, ac eithrio'r rhai sy'n berthnasol i reoli'r gyllideb. Hefyd, bydd unrhyw archwilydd allanol yn disgwyl y bydd yr un lefel o reolaeth fewnol yn berthnasol i'r cronfeydd cyfun ag sy'n berthnasol i rannau eraill y sefydliad partner. Yn ogystal, bydd gan yr archwilydd hawl mynediad llawn o hyd i'r cofnodion a'r systemau ariannol, ac yn disgwyl y bydd trywydd archwilio clir ar gael ar gyfer trafodion ariannol o bob math.
69. Un o fanteision y gronfa gyfun yw'r ffaith y bydd staff iechyd a staff yr awdurdod lleol a nodir yn y cytundeb yn gallu cyrchu a gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio'r adnoddau yn y gronfa, yn unol â'r broses y cytunir arni yn lleol rhwng y staff a rheolwr y gronfa gyfun. Bydd angen proses y cytunir arni i awdurdodi staff i wneud hyn. Nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n nodi na all staff iechyd ddefnyddio cronfeydd cyfun i gyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y partneriaid chwaith.
70. Bydd y gofynion archwilio a chyfrifyddu yn amrywio, gan ddibynnu ar natur yr hyblygrwydd sydd i'w ddefnyddio. Bydd yn bwysig ystyried sut i gynnwys cynrychiolwyr archwilio allanol lleol yn y gwaith o ychwanegu gwerth at y cytundeb arfaethedig, gan gynnwys gwneud sylwadau ar oblygiadau archwilio a chyfrifyddu cytundeb drafft lleol.

71. Bydd yn bwysig i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol nodi pa swyddogaethau neu wasanaethau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd integreiddio, naill ai drwy daliad uniongyrchol gan un partner i bartner arall, drwy gyfrannu at gronfa gyfun neu drwy un partner yn darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill i bartner arall at ddibenion trefniadau partneriaeth, neu mewn perthynas â nhw.

## 10. Llywodraethu – Cytundebau Ysgrifenedig

72. Bydd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu cytundebau ysgrifenedig yn ymwneud ag unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaethau. Hefyd, dylai Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol lofnodi cytundeb sy'n nodi'r telerau allweddol yn unol â'r gofynion statudol. Dylai gweithgarwch ategol fynd rhagddo ochr yn ochr â drafftio cytundeb i sicrhau bod modd ei weithredu o ddydd i ddydd drwy fframwaith corfforaethol gwasanaeth a chyllid y corff perthnasol. Hefyd, dylai partneriaid nodi cwmpas unrhyw drefniadau llywodraethu yn glir.
73. Gall y trefniadau partneriaeth gynnwys cronfeydd cyfun, dirprwyo swyddogaethau h.y. arwain gwaith comisiynu a darpariaeth integredig. Mewn amgylchiadau o'r fath, lle mae partneriaethau'n cael eu creu er mwyn symleiddio darpariaeth gwasanaethau yn bennaf, mae'n hanfodol bod telerau'r bartneriaeth yn cael eu nodi'n glir mewn cytundeb ysgrifenedig. Hefyd, gall fod yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng trefniadau partneriaeth ffurfiol a threfniadau llai ffurfiol.
74. Mae trefniadau partneriaeth ffurfiol wedi'u defnyddio i ddisgrifio trefniadau ffurfiol sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaethau o un partner i bartner arall ym meysydd y GIG ac awdurdodau lleol. Hefyd, gellir defnyddio trefniadau ffurfiol i ddisgrifio'r defnydd o gronfeydd cyfun fel y rhai o dan Ddeddf Plant 2004. Hyd yn oed os yw'r broses o wneud trefniadau partneriaeth megis dechrau, neu os oes trefniadau mwy anffurfiol ar waith, nid oes rheswm pam na allant fod yn seiliedig ar gytundeb ysgrifenedig.
75. Mae amrywiaeth y swyddogaethau y gellir eu cynnwys mewn trefniant partneriaeth wedi'u nodi yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth. Fodd bynnag, ceir rhai eithriadau. Ymhlith y meysydd awdurdodau lleol nad yw'r hyblygrwydd a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt y mae paneli mabwysiadu, arolygu cartrefi plant a dyletswyddau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ym maes iechyd, mae'r eithriadau yn cynnwys llawdriniaeth, radiotherapi, endosgopau, terfynu beichiogrwydd, triniaethau mewnwthiol a gwasanaethau ambiwlans brys.
76. Ar ôl cytuno ar yr hyn sydd ei angen, dylai partneriaid benderfynu sut i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Gall hyn olygu newid sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu a chynllunio modelau sengl newydd i ddarparu gwasanaethau. Gall gynnwys y canlynol hefyd:
- Amcanion gwella gwasanaethau e.e. dulliau effeithiol y gellir eu gweithredu a'u dangos er mwyn cadarnhau cysylltiadau â gwasanaethau eraill, ac amcanion sy'n sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau unigol yn cael eu diwallu yn ystod y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau;
  - Amcanion i ddatblygu a gwella ansawdd a safonau gwasanaethau e.e. lle gellid cysoni polisiau clinigol ac ymarfer perthnasol y sefydliadau partner. Gall hyn arwain at gynllunio proses newydd ar gyfer asesu a darparu gofal;
  - Amcanion adnoddau dynol e.e. i fynd i'r afael â'r angen am ddatblygu timau, ac amcanion sy'n cefnogi prosesau recriwtio a chadw staff, hyfforddi staff ac ati.
  - Amcanion busnes e.e. targedau penodol yn ymwneud â gweithgarwch, cyllid, peryglon a nodir neu newid yn y dyfodol.



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2015 Rhif 1989 (Cy. 299)**

**2015 No. 1989 (W. 299)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth  
(Cymru) 2015**

**The Partnership Arrangements  
(Wales) Regulations 2015**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Sections 166 to 169 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 make provision for partnership arrangements between local authorities and Local Health Boards.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion i bob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig; mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniadau partneriaeth, sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol a sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun.

These Regulations set out the requirements for each Local Health Board and the local authorities within the area of each Local Health Board to take part in partnership arrangements for the carrying out of specified health and social services functions; the Regulations also make provision, amongst other things, for the operation and management of the partnership arrangements, the establishment of regional partnership boards and the establishment and maintenance of pooled funds.

Mae rheoliadau 2 i 8 yn disgrifio'r Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol sydd i gymryd rhan yn y trefniadau partneriaeth. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn cael eu sefydlu ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y trefniadau partneriaeth yn cael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol penodedig.

Regulations 2 to 8 describe the Local Health Boards and the local authorities which are to take part in partnership arrangements. They also require the establishment of seven regional partnership boards and require the partnership arrangements to be carried out under the direction of a specified regional partnership board.

Mae rheoliad 9 ac Atodlen 1 yn disgrifio swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol sydd i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Regulation 9 and Schedule 1 describe the functions of Local Health Boards and local authorities which are to be carried out by the partnership arrangements.

Mae rheoliadau 10, 11 a 12 yn darparu ar gyfer amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol, ynghyd â'r gofynion o ran aelodaeth ac adrodd.

Regulations 10, 11 and 12 provide for the objectives of the regional partnership boards, together with membership and reporting requirements.

Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng cyrff partneriaeth, timau integredig cymorth i deuluoedd a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Regulation 13 provides for the sharing of information between partnership bodies, integrated family support teams and regional partnership boards.

Mae rheoliad 14 yn galluogi pob corff partneriaeth i ddirprwyo swyddogaethau i gorff partneriaeth arall at ddibenion y trefniadau partneriaeth.

Mae rheoliadau 15 i 18 yn cynnwys darpariaeth benodol mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau cymorth i deuluoedd (fel a bennir yn Atodlen 4) ac mewn perthynas â sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd. Bwriad y trefniadau hyn yw darparu parhad â'r trefniadau presennol o dan Ran 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae rheoliad 19 yn ei gwneud yn ofynnol bod cronfeydd cyfun yn cael eu sefydlu a'u cynnal mewn perthynas â swyddogaethau penodol cyrff partneriaeth.

Regulation 14 enables each partnership body to delegate functions to another partnership body for the purposes of the partnership arrangements.

Regulations 15 to 18 contain specific provision in relation to partnership arrangements for carrying out family support functions (as specified in Schedule 4) and the establishment of integrated family support teams. These arrangements are intended to provide continuity with current arrangements under Part 3 of the Children and Families (Wales) Measure 2010.

Regulation 19 requires pooled funds to be established and maintained in relation to specific functions of partnership bodies.

**2015 Rhif 1989 (Cy. 299)**

**2015 No. 1989 (W. 299)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth  
(Cymru) 2015**

**The Partnership Arrangements  
(Wales) Regulations 2015**

*Gwnaed* 2 Rhagfyr 2015

*Made* 2 December 2015

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(2)*

**CYNNWYS**

**CONTENTS**

1. Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1. Title, commencement, application and interpretation

**BYRDDAU PARTNERIAETH  
RHANBARTHOL**

**REGIONAL PARTNERSHIP BOARDS**

2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent
3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru
4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin
6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf
7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Cymru
8. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys
9. Swyddogaethau penodedig

2. Partnership arrangements under the direction of Gwent regional partnership board
3. Partnership arrangements under the direction of North Wales regional partnership board
4. Partnership arrangements under the direction of Cardiff and Vale regional partnership board
5. Partnership arrangements under the direction of Western Bay regional partnership board
6. Partnership arrangements under the direction of Cwm Taf regional partnership board
7. Partnership arrangements under the direction of the West Wales regional partnership board
8. Partnership arrangements under the direction of Powys regional partnership board
9. Specified functions



10. Amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol
11. Aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol
12. Adroddiadau
13. Rhannu gwybodaeth
14. Dirprwyo swyddogaethau

#### TIMAU INTEGREDIG CYMORTH I DEULUOEDD

15. Swyddogaethau cymorth i deuluoedd
16. Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd
17. Neilltuo ac arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd
18. Trefniadau ar gyfer atgyfeirio achosion at y timau integredig cymorth i deuluoedd

#### CRONFEYDD CYFUN

19. Sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun

##### Atodlen 1

Y swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan drefniadau partneriaeth

##### Atodlen 2

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 166(1)(b), (2) i (5), 167(3) a 168(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddo.

#### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

(2) (a) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac eithrio is-baragraff (a) o reoliad 19(1);

(b) daw is-baragraff (a) o reoliad 19(1) i rym ar 6 Ebrill 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

10. Objectives of regional partnership boards
11. Membership of regional partnership boards
12. Reports
13. Information sharing
14. Delegation of functions

#### INTEGRATED FAMILY SUPPORT TEAMS

15. Family support functions
16. Establishment of integrated family support teams
17. Assignment and exercise of family support functions
18. Arrangements for referral of cases to the integrated family support teams

#### POOLED FUNDS

19. Establishment and maintenance of pooled funds

##### Schedule 1

Functions to be carried out by partnership arrangements

##### Schedule 2

Family support functions

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 166(1)(b), (2) to (5), 167(3) and 168(1) and (2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(1).

A draft of these Regulations was laid before the National Assembly for Wales under section 196(6) of that Act and has been approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

#### Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015.

(2) (a) These Regulations come into force on 6 April 2016 except sub-paragraph (a) of regulation 19(1);

(b) sub-paragraph (a) of regulation 19(1) comes into force on 6 April 2018.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 2014 dccc 4.

(1) 2014 anaw 4.



(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “byrddau partneriaeth rhanbarthol” (“*regional partnership boards*”) yw’r byrddau y mae’n ofynnol iddynt gael eu sefydlu gan gyrff partneriaeth yn unol â rheoliadau 2 i 8;

“cyrff partneriaeth” (“*partnership bodies*”) yw’r cyrff hynny y mae’n ofynnol iddynt ymrwymo i gytundebau partneriaeth gan reoliadau 2 i 8;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

